OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 813 (Cy. 164)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018. Mae Rheoliadau 2018 hefyd yn darparu cymorth ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018 ac sy'n cael eu troi wedi hynny o gyrsiau llawnamser i gyrsiau rhan-amser neu o gyrsiau rhan-amser i gyrsiau llawnamser ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2018.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 46(3)(c) o Reoliadau 2018 fel bod uchafswm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy, pan fo incwm aelwyd myfyriwr yn fwy na £18,370 ond yn llai na £59,200, wedi ei ostwng £1 am bob £5.750 o incwm aelwyd sy'n fwy na £18,370 pan fo'r myfyriwr yn byw oddi cartref, ac yn astudio yn rhywle ac eithrio Llundain.

Mae rheoliad 4 yn rhoi rheoliad 56 newydd yn lle rheoliad 56 o Reoliadau 2018. Mae'r rheoliad newydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrifo swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i fyfyrwyr llawnamser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50 o Reoliadau 2018.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2018 No. 813 (W. 164)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Student Support) (Wales) (Amendment) Regulations 2018

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 ("the 2018 Regulations") provide for financial support for students taking designated higher education courses which begin on or after 1 August 2018. The 2018 Regulations also provide support for courses which begin before 1 August 2018 and are subsequently converted from full-time to part-time or part-time to full-time on or after 1 August 2018.

These Regulations amend the 2018 Regulations.

Regulation 3 amends regulation 46(3)(c) of the 2018 Regulations so that where a student's household income exceeds £18,370 but is less than £59,200, the maximum amount of maintenance grant payable is reduced by £1 for every £5.750 of household income exceeding £18,370 where the student is living away from home, studying somewhere other than London.

Regulation 4 substitutes new regulation 56 for regulation 56 of the 2018 Regulations. The new regulation makes provision for the calculation of the amount of maintenance loan payable to full-time students who qualify for a special support payment under regulation 50 of the 2018 Regulations.

Mae rheoliad 5 yn mewnosod paragraff newydd yn rheoliad 58 o Reoliadau 2018 o ganlyniad i reoliad 6. Mae rheoliad 6 yn darparu i reoliad newydd gael ei fewnosod yn Rheoliadau 2018, sef rheoliad 58A. Mae rheoliad 58A yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrifo'r benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i fyfyrwyr rhan-amser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50 o Reoliadau 2018.

Mae rheoliadau 7, 8, 9 a 10 yn diwygio yn eu trefn reoliadau 81, 93, 94 a 95 o Reoliadau 2018 sy'n ymdrin â chyfrifo'r hawlogaeth i gael benthyciad cynhaliaeth pan fo myfyriwr yn cymhwyso i gael cymorth ond, ar adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, yn absennol o'r cwrs neu fod ei gyfnod cymhwystra yn dod i ben neu'n cael ei derfynu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Regulation 5 inserts a new paragraph into regulation 58 of the 2018 Regulations as a consequence of regulation 6. Regulation 6 provides for a new regulation to be inserted into the 2018 Regulations as regulation 58A. Regulation 58A makes provision for the calculation of maintenance loan payable to part-time students who qualify for a special support payment under regulation 50 of the 2018 Regulations.

Regulations 7, 8, 9 and 10 amend, respectively, regulations 81, 93, 94 and 95 of the 2018 Regulations which deal with the calculation of maintenance loan entitlement where a student qualifies for support but at a point during the academic year is absent from the course or their period of eligibility ends or is terminated.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Higher Education Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 813 (Cy. 164)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018

*Gwnaed* *3 Gorffennaf 2018*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *6 Gorffennaf 2018*

*Yn dod i rym* *1 Awst 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11; Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6; Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147; Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7; Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257; Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76; O.S. 2013/1881; a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 88. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) i (i) a (k) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), ac mae is-adrannau (a), (c) a (k) yn cael eu harfer ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2018 No. 813 (W. 164)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Student Support) (Wales) (Amendment) Regulations 2018

*Made* *3 July 2018*

*Laid before the National Assembly for Wales* *6 July 2018*

*Coming into force* *1 August 2018*

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred on the Secretary of State under sections 22 and 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998(**1**) and now exercisable by them(**2**), make the following Regulations:

(**1**) 1998 c. 30; section 22 was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 146 and Schedule 11; the Income Tax (Earnings and Pensions) Act 2003 (c. 1), Schedule 6; the Finance Act 2003 (c. 14), section 147; the Higher Education Act 2004 (c. 8), sections 42 and 43 and Schedule 7; the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c. 22), section 257; the Education Act 2011 (c. 21), section 76; S.I. 2013/1881; and the Higher Education and Research Act 2017 (c. 29), section 88. *See* section 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 for the definition of "prescribed" and "regulations".

(**2**) The Secretary of State's functions in section 22(2)(a) to (i) and (k) were transferred to the National Assembly for Wales so far as they relate to making provision in relation to Wales by section 44 of Higher Education Act 2004 (c. 8), with subsections (a), (c) and (k) being exercised concurrently with the Secretary of State. The Secretary of State's functions in section 42 were transferred, in so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, article 2, Schedule 1 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

# RHAN 1

## ENWI A CHYCHWYN

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Awst 2018.

# RHAN 2

## DIWYGIO RHEOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (CYMRU) 2018

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018**

**2.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 10.

**3.** Yn rheoliad 46(3)(c), ar ôl "incwm aelwyd" mewnosoder "sy'n fwy na £18,370".

**4.** Yn lle rheoliad 56 rhodder—

> **"Swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr llawnamser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig**
>
> **56.**—(1) Pan fo myfyriwr llawnamser yn cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50, cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr yn unol â pharagraff (2).
>
> (2) Cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy drwy gymhwyso'r camau a ganlyn—
>
> *Cam 1*
>
> Nodi swm—
>
> (a) y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr o dan reoliad 46, a
>
> (b) y grant sylfaenol sy'n daladwy i'r myfyriwr o dan reoliad 45.

(**1**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/802 (Cy. 161).

# PART 1

## TITLE AND COMMENCEMENT

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Education (Student Support) (Wales) (Amendment) Regulations 2018.

(2) These Regulations come into force on 1 August 2018.

# PART 2

## AMENDMENTS TO THE EDUCATION (STUDENT SUPPORT) (WALES) REGULATIONS 2018

**Amendments to the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018**

**2.** The Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018(**1**) are amended in accordance with regulations 3 to 10.

**3.** In regulation 46(3)(c), after "household income" insert "exceeding £18,370".

**4.** For regulation 56 substitute—

> **"Amount of maintenance loan: full-time students who qualify for special support payment**
>
> **56.**—(1) Where a full-time student qualifies for a special support payment under regulation 50, the amount of maintenance loan payable to the student is calculated in accordance with paragraph (2).
>
> (2) The amount of maintenance loan payable is calculated by applying the following steps—
>
> *Step 1*
>
> Identify the amount of—
>
> (a) maintenance grant payable to the student under regulation 46, and
>
> (b) base grant payable to the student under regulation 45.

(**1**) S.I. 2018/191 (W. 42), amended by S.I. 2018/802 (W. 161).

*Cam 2*

Nodi swm y grant sylfaenol a'r grant cynhaliaeth sydd i'w drin fel taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50.

*Cam 3*

Nodi swm cymwys y cymorth byw i'r myfyriwr drwy gyfeirio at Dabl 8, pan fo—

(a) Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae symiau'r cymorth byw yng Ngholofn 3 yn gymwys mewn perthynas â hi;

(b) Colofn 2 yn pennu'r lleoliad y mae'r myfyriwr yn byw ynddo (gweler paragraff 3 o Atodlen 1);

(c) Colofn 3 yn pennu symiau cymwys y cymorth byw ar gyfer y cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1 a 2.

**Tabl 8**

| *Colofn 1*<br>Blwyddyn academaidd | *Colofn 2*<br>Lleoliad y myfyriwr | *Colofn 3*<br>Swm cymwys y cymorth byw i'r myfyriwr cymorth arbennig |
| --- | --- | --- |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 2018 | Byw gartref | £7,650 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £11,250 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £9,000 |

*Cam 4*

Pa un bynnag yw'r mwyaf o—

(a) y swm a nodir yng Ngham 3, neu

(b) symiau'r grant a nodir yng Ngham 1 plws isafswm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr fel y'i pennir drwy gyfeirio at Dabl 8A,

yw uchafswm y cymorth byw sydd ar gael i'r myfyriwr.

*Step 2*

Identify the amount of base grant and maintenance grant to be treated as a special support payment under regulation 50.

*Step 3*

Identify the applicable amount of living support for the student by reference to Table 8, where—

(a) Column 1 specifies the academic year in relation to which the amounts of living support in Column 3 apply;

(b) Column 2 specifies the location in which the student is living (see paragraph 3 of Schedule 1);

(c) Column 3 specifies the applicable amounts of living support for the corresponding entries in Columns 1 and 2.

**Table 8**

| *Column 1*<br>*Academic year* | *Column 2*<br>*Location of student* | *Column 3*<br>*Applicable amount of living support for special support student* |
| --- | --- | --- |
| Beginning on or after 2018 | Living at home | £7,650 |
| | Living away from home, studying in London | £11,250 |
| | Living away from home, studying elsewhere | £9,000 |

*Step 4*

Whichever is the greater of—

(a) the amount identified at Step 3, or

(b) the amounts of grant identified at Step 1 plus the minimum amount of maintenance loan payable to the student as specified by reference to Table 8A,

is the maximum amount of living support available to the student.

*Cam 5*

Cyfrifo uchafswm tybiannol y benthyciad cynhaliaeth drwy ddidynnu swm y taliad cymorth arbennig a nodir yng Ngham 2 o uchafswm y cymorth byw a nodir yng Ngham 4.

*Cam 6*

Didynnu swm unrhyw grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr nad yw'n cael ei drin fel taliad cymorth arbennig o uchafswm tybiannol y benthyciad cynhaliaeth a gyfrifir yng Ngham 5.

Y canlyniad yw swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr.

(3) Yn Nhabl 8A—

(a) mae Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae isafsymiau'r benthyciad cynhaliaeth yng Ngholofn 3 yn gymwys mewn perthynas â hi;

(b) mae Colofn 2 yn pennu'r lleoliad y mae'r myfyriwr yn byw ynddo (gweler paragraff 3 o Atodlen 1);

(c) mae Colofn 3 yn pennu isafsymiau'r benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy ar gyfer y cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1 a 2.

**Tabl 8A**

| *Colofn 1*<br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Lleoliad y myfyriwr* | *Colofn 3*<br>*Isafswm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy* |
|---|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 2018 | Byw gartref | £3,325 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £5,125 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £4,000 |

(4) Yn y rheoliad hwn, "cymorth byw" yw'r term ar gyfer y taliad cymorth arbennig, y grant cynhaliaeth a'r benthyciad cynhaliaeth ar y cyd."

*Step 5*

Calculate the notional maximum amount of maintenance loan by deducting the amount of special support payment identified at Step 2 from the maximum amount of living support identified at Step 4.

*Step 6*

Deduct the amount of any maintenance grant payable to the student that is not treated as special support payment from the notional maximum amount of maintenance loan calculated at Step 5.

The result is the amount of maintenance loan payable to the student.

(3) In Table 8A—

(a) Column 1 specifies the academic year in relation to which the minimum amounts of maintenance loan in Column 3 apply;

(b) Column 2 specifies the location in which the student is living (see paragraph 3 of Schedule 1);

(c) Column 3 specifies the minimum amounts of maintenance loan payable for the corresponding entries in Columns 1 and 2.

**Table 8A**

| *Column 1*<br>*Academic year* | *Column 2*<br>*Location of student* | *Column 3*<br>*Minimum amount of maintenance loan payable* |
|---|---|---|
| Beginning on or after 2018 | Living at home | £3,325 |
| | Living away from home, studying in London | £5,125 |
| | Living away from home, studying elsewhere | £4,000 |

(4) In this regulation, "living support" is the collective term for special support payment, maintenance grant and maintenance loan."

**5.** Yn rheoliad 58 (swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser), ar y diwedd mewnosoder—

"(3) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 58A."

**6.** Ar ôl rheoliad 58 mewnosoder—

**"Swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig**

**58A.—**(1) Pan fo myfyriwr rhan-amser yn cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50, cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr yn unol â pharagraff (2).

(2) Cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth drwy gymhwyso'r camau a ganlyn—

*Cam 1*

Nodi swm y grant sylfaenol a'r grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr sydd i'w drin fel taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50.

*Cam 2*

Cyfrifo swm cymwys y cymorth byw i'r myfyriwr drwy gyfeirio at Dabl 10A, pan fo Colofn 2 o'r tabl yn pennu swm y cymorth byw sy'n gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd a bennir yng Ngholofn 1.

**Tabl 10A**

| *Colofn 1*<br>Blwyddyn academaidd | *Colofn 2*<br>Swm y cymorth byw i'r myfyriwr rhan-amser pan fo cymorth arbennig yn daladwy |
|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 2018 | £6,650 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |

*Cam 3*

Didynnu swm y taliad cymorth arbennig a nodir yng Ngham 1 o swm cymwys y cymorth byw a nodir yng Ngham 2.

Y canlyniad yw swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr.

(3) Yn y rheoliad hwn, "cymorth byw" yw'r term ar gyfer y taliad cymorth arbennig, y grant cynhaliaeth a'r benthyciad cynhaliaeth ar y cyd.
"

**5.** In regulation 58 (amount of maintenance loan: part-time students), at the end insert—

"(3) This regulation is subject to regulation 58A."

**6.** After regulation 58 insert—

**"Amount of maintenance loan: part-time students who qualify for special support payment**

"**58A.—**(1) Where a part-time student qualifies for a special support payment under regulation 50, the amount of maintenance loan payable to the student is calculated in accordance with paragraph (2).

(2) The amount of maintenance loan is calculated by applying the following steps—

*Step 1*

Identify the amount of base grant and maintenance grant payable to the student which is to be treated as a special support payment under regulation 50.

Step 2

Calculate the applicable amount of living support for the student by reference to Table 10A, where Column 2 of the table specifies the amount of living support that applies in relation to the academic year specified in Column 1.

**Table 10A**

| *Column 1*<br>Academic year | *Column 2*<br>Amount of living support for part-time student where special support payable |
|---|---|
| Beginning on or after 2018 | £6,650 multiplied by intensity of study |

*Step 3*

Deduct the amount of special support payment identified at Step 1 from the applicable amount of living support identified at Step 2.

The result is the amount of maintenance loan payable to the student.

(3) In this regulation, "living support" is the collective term for special support payment, maintenance grant and maintenance loan."

**7.** Yn rheoliad 81(2) (cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth neu grantiau yn ystod y flwyddyn academaidd), yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) yn achos grant, mewn cysylltiad â gweddill diwrnodau y flwyddyn academaidd, ac, yn achos benthyciad cynhaliaeth, mewn cysylltiad â gweddill diwrnodau tymor y flwyddyn academaidd, sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r digwyddiad perthnasol yn digwydd yn y naill achos neu'r llall, a"

**8.** Yn rheoliad 93 (cymorth wedi ei ostwng am gyfnodau a dreulir yn y carchar), yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae swm y benthyciad cynhaliaeth neu'r grant sy'n daladwy wedi ei ostwng yn ôl nifer y diwrnodau yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr cymwys yn garcharor."

**9.** Yn rheoliad 94 (cymorth wedi ei ostwng am gyfnodau eraill o absenoldeb), yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae swm y benthyciad cynhaliaeth neu'r grant wedi ei ostwng yn ôl nifer y diwrnodau yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr cymwys yn absennol o'i gwrs."

**10.** Yn rheoliad 95 (taliadau pan fo'r cyfnod cymhwystra yn dod i ben neu'n cael ei derfynu), yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Pan fo cyfnod cymhwystra myfyriwr cymwys wedi dod i ben neu wedi cael ei derfynu, mae unrhyw swm o'r benthyciad cynhaliaeth neu'r grant sy'n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd wedi ei ostwng yn ôl nifer y diwrnodau yn y flwyddyn academaidd pan fo cymhwystra wedi dod i ben neu wedi cael ei derfynu."

**7.** In regulation 81(2) (qualifying for grants or maintenance loan during the academic year), for sub-paragraph (a) substitute—

"(a) will only, in the case of a grant, be in respect of the remaining days of the academic year, and, in the case of a maintenance loan, only be in respect of the remaining term days of the academic year, in either case beginning with the day the relevant event occurs, and"

**8.** In regulation 93 (support reduced for periods spent in prison), for paragraph (2) substitute—

(2) Where this regulation applies, the amount of grant or maintenance loan payable is reduced by the number of days during the academic year that the eligible student is a prisoner."

**9.** In regulation 94 (support reduced for other periods of absence), for paragraph (2) substitute—

(2) Where this regulation applies, the amount of grant or maintenance loan is reduced by the number of days during the academic year the eligible student is absent from their course."

**10.** In regulation 95 (payments when period of eligibility ends or is terminated), for paragraph (1) substitute—

"(1) Where an eligible student's period of eligibility has ended or has been terminated, any amount of grant or maintenance loan payable in respect of an academic year is reduced by the number of days in the academic year when eligibility has ended or terminated."

*Kirsty Williams*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru

3 Gorffennaf 2018

Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers

3 July 2018

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-20263-2

£6.90

W201807041008 07/2018

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/813